GWYBODAETH AM Y GADWYN FWYD (FCI) AR GYFER GWARTHEG, DEFAID A GEIFR

Cefndir

Mae deddfwriaeth[1] yn dod i rym ar 1 Ionawr 2010 sy'n mynnu bod gweithredwyr lladd-dai yn ceisio, derbyn, gwirio ac yn gweithredu ar wybodaeth am y gadwyn fwyd (FCI) ar gyfer yr holl wartheg, defaid a geifr sy'n cael eu hanfon i'w lladd er mwyn i bobl eu bwyta.

Ers dechrau 2006, mae'r Rheoliadau Hylendid yn ymdrin â diogelwch bwyd drwy edrych ar y gadwyn fwyd gyfan, o'r fferm i'r fforc, ac mae'r gofyniad hwn yn rhan o hynny. Mae'r gofyniad am FCI wedi'i gyflwyno fesul rhywogaeth o anifail – dofednod yn 2006, moch yn 2008, lloi a cheffylau yn 2009, gwartheg, defaid a geifr yn 2010.

Mae FCI yn cyfrannu at systemau rheoli diogelwch bwyd lladd-dai, sy'n seiliedig ar HACCP, drwy roi gwybodaeth am anifeiliaid sy'n cael eu caffael ar gyfer eu lladd. Mae llawer o weithredwyr busnesau bwyd (FBO) eisoes yn gofyn i'w cyflenwyr da byw am yr wybodaeth hon, fel rhan o'u perthynas waith â hwy, ac felly mae'n bosibl na fydd ganddynt lawer i'w wneud er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn defnyddio FCI i helpu i wneud penderfyniadau am gig ac i bennu gweithdrefnau arolygu ar gyfer anifeiliaid a grwpiau o anifeiliaid.

Cynnwys Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd

Mae gofyn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) roi gwybod i weithredwyr busnesau bwyd pa wybodaeth FCI sy'n rhaid ei chyflwyno fel isafswm. Mae'r Asiantaeth wedi ymgynghori ag ystod o randdeiliaid er mwyn pennu pa wybodaeth fydd ei hangen, ac mae'r wybodaeth honno wedi'i nodi yn y dogfennau enghreifftiol yn Atodiadau A a B. Aethpwyd ati i bennu pa wybodaeth sy'n rhaid ei chyflwyno fel isafswm gyda'r nod o sicrhau nad yw'r FCI yn cynnwys dim ond gwybodaeth y gellir ei defnyddio'n uniongyrchol gan y gweithredwr neu staff yr MHS yn y lladd-dy.

[1] Rheoliad (CE) Rhif. 853/2004 yn nodi rheolau penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid

Dylid ystyried isafswm yr wybodaeth (minimum elements) fel gofyniad sylfaenol o ran yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno i weithredwyr lladd-dai – yn y pen draw, cyfrifoldeb y gweithredwyr yw gofyn i gyflenwyr am yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt at eu dibenion rheoli diogelwch bwyd.

Bydd angen rhoi rhagor o fanylion am anifeiliaid y mae angen cyflwyno gwybodaeth benodol amdanynt o dan amgylchiadau penodol. Nodir yr wybodaeth hon yn y ddogfen enghreifftiol yn Atodiad C.

Fformat gwybodaeth am y gadwyn fwyd

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn pennu ar ba fformat y mae'n rhaid i weithredwyr lladd-dai dderbyn FCI. Dylai'r gweithredwyr ddewis y fformat sydd fwyaf addas i'w busnes. Er enghraifft; gellir defnyddio'r dogfennau enghreifftiol amgaeedig, neu gall gweithredwyr lladd-dai eu haddasu at eu dibenion eu hunain; gellir cynnwys yr wybodaeth ofynnol yn nogfennaeth y cwmni ei hun (e.e. datganiadau cyflenwyr neu amlenni pasportiau); dulliau electronig o gyfnewid gwybodaeth.

Yn achos defaid a geifr, mae darpariaethau yn cael eu gwneud yng Nghymru a Lloegr i ddatganiadau FCI a gwybodaeth ychwanegol gael eu hymgorffori i'r ddogfen symud (ffurflen AML 1) a gynhyrchir gan Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae defnyddio'r ffurflenni AML1 newydd yn un ffordd o gyflwyno FCI ar gyfer defaid a geifr, ond cofiwch fod modd defnyddio dulliau eraill a allai fod yn gweddu'n well i anghenion busnes gweithredwyr lladd-dai.

Cyfrifoldeb gweithredwyr y lladd-dai yw rhoi gwybod i'w cyflenwyr pa FCI yn union sydd ei hangen arnynt, ac ar ba ffurf y mae angen ei chyflwyno.

Amser derbyn FCI

Gellir cyflwyno FCI cyn i'r anifeiliaid gyrraedd y lladd-dy, neu gellir ei chyflwyno gyda'r anifeiliaid. Yn ddelfrydol, dylai'r FCI gael ei rhoi i'r lladd-dy cyn i'r anifeiliaid gyrraedd yno, ond mewn llawer o achosion nid yw hyn yn ymarferol, yn arbennig ar

gyfer gwartheg a defaid a gaiff eu caffael mewn marchnadoedd da byw. Yn achos unrhyw wybodaeth a allai ymyrryd ar drefn weithredu arferol y lladd-dy, rhaid cynghori cyflenwyr i ddarparu FCI mewn da bryd cyn i'r anifeiliaid gyrraedd.

Os yw anifeiliaid yn cyrraedd y lladd-dy heb FCI, rhaid i'r gweithredwr roi gwybod i'r Milfeddyg Swyddogol (OV) ar unwaith. Ni chaniateir lladd yr anifeiliaid tan fod yr OV yn awdurdodi hynny. Ni fydd anifeiliaid a gaiff eu lladd heb FCI yn cael eu cymeradwyo ar gyfer eu bwyta gan bobl hyd nes bod yr FCI yn dod i law. Bydd unrhyw anifeiliaid sy'n cyrraedd heb FCI yn tarfu ar broses weithredu arferol y lladd-dy, felly mae o fudd i weithredwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion FCI o 1 Ionawr 2010 ymlaen, a bod cyflenwyr da byw yn ymwybodol bod yn rhaid cyflwyno FCI gyda'r anifeiliaid, neu cyn iddynt gyrraedd.

Camau i'w cymryd pan ddaw'r FCI i law

Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod gweithredwyr lladd-dai yn gwirio ac yn gweithredu ar wybodaeth am y gadwyn fwyd. Dylai gweithredwyr ddefnyddio FCI i lywio eu systemau rheoli diogelwch bwyd sy'n seiliedig ar HACCP ac i wneud penderfyniadau am dderbyn anifeiliaid, yn ogystal ag unrhyw drefniadau prosesu arbennig, e.e. lladd ar ddiwedd llinell, gofynion paratoi ychwanegol, arafu cyflymder y llinell.

Unwaith y mae'r gweithredwr wedi derbyn yr anifeiliaid i'w lladd, rhaid iddo/i sicrhau bod yr FCI ar gael i'r OV. Rhaid rhoi gwybod i'r OV am unrhyw bryderon am iechyd anifeiliaid cyn cynnal yr archwiliad cyn lladd.

Gwybodaeth bellach

Gellir gweld y ddogfen wybodaeth hon a'r dogfennau enghreifftiol amgaeedig (yn Atodiadau A, B a C) ar wefan yr ASB drwy'r ddolen ganlynol:

www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/meatregsguid/fciguidance

Atodiad A

Dogfen enghreifftiol

GWYBODAETH AM Y GADWYN FWYD AR GYFER GWARTHEG	
Rhif y Daliad	
Enw'r Ceidwad	
Cyfeiriad y Daliad	
Rhif ffôn	
Cyfeiriad e-bost (dewisol)	
Nodau adnabod unigol – neu cyflwynwch restr	
Datganiad	

<u>Nid yw'r</u> daliad dan gyfyngiadau symud ar gyfer Twbercwlosis gwartheg (TB)*

NEU

<u>Mae'r</u> daliad dan gyfyngiadau symud ar gyfer Twbercwlosis gwartheg (TB)*

*dileu un

Nid yw'r daliad o dan unrhyw gyfyngiadau symud o ganlyniad i glefyd anifeiliaid neu resymau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Cydymffurfiwyd â'r cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer yr holl feddyginiaethau milfeddygol a'r triniaethau eraill y mae'r anifeiliaid wedi'u cael tra'r oeddent ar y daliad hwn, a daliadau blaenorol.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid yw'r anifeiliaid yn dioddef o unrhyw afiechyd neu gyflwr a allai effeithio ar ddiogelwch y cig a ddaw oddi wrthynt. Nid yw unrhyw samplau a gymerwyd oddi wrth yr anifeiliaid ar y daliad nac unrhyw samplau eraill wedi dangos bod yr anifeiliaid wedi bod yn agored i unrhyw glefydau neu gyflyrau a allai effeithio ar ddiogelwch cig, neu unrhyw sylweddau a allai arwain at weddillion yn y cig.	
Llofnod y ceidwad	
Printio enw	
Dyddiad	
Os nad yw'r datganiadau uchod i gyd yn wir am yr anifeiliaid, ticiwch y blwch hwn a rhowch ragor o wybodaeth ar ddogfen amgaeedig	

Atodiad B

Dogfen enghreifftiol

GWYBODAETH AM Y GADWYN FWYD AR GYFER DEFAID A GEIFR	
Rhif y Daliad	
Enw'r Ceidwad	
Cyfeiriad y Daliad	
Rhif ffôn	
Cyfeiriad e-bost (dewisol)	
Nodau adnabod - neu cyflwynwch restr	

Nifer yr anifeiliaid	Nod adnabod		Nifer yr anifeiliaid	Nod adnabod

Datganiad
Nid yw'r daliad o dan unrhyw gyfyngiadau symud o ganlyniad i glefyd anifeiliaid neu resymau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Cydymffurfiwyd â'r cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer yr holl feddyginiaethau milfeddygol a'r triniaethau eraill y mae'r anifeiliaid wedi'u cael tra'r oeddent ar y daliad hwn, a daliadau blaenorol.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid yw'r anifeiliaid yn dioddef o unrhyw afiechyd neu gyflwr a allai effeithio ar ddiogelwch y cig a ddaw oddi wrthynt. Nid yw unrhyw samplau a gymerwyd oddi wrth yr anifeiliaid ar y daliad nac unrhyw samplau eraill wedi dangos bod yr anifeiliaid wedi bod yn agored i unrhyw glefydau neu gyflyrau a allai effeithio ar ddiogelwch cig, neu unrhyw sylweddau a allai arwain at weddillion yn y cig.	
Llofnod y ceidwad	
Printio enw	
Dyddiad	
Os nad yw'r datganiadau uchod i gyd yn wir am yr anifeiliaid, ticiwch y blwch hwn a rhowch ragor o wybodaeth ar ddogfen amgaeëdig	

Atodiad C

Dogfen Enghreifftiol

GWYBODAETH YCHWANEGOL AM Y GADWYN FWYD

ar gyfer Gwartheg, Defaid a Geifr

Gwybodaeth am anifeiliaid y credir eu bod yn dioddef o glefyd neu gyflwr a allai effeithio ar ddiogelwch y cig a ddaw ohonynt.			
Nodau adnabod yr anifeiliaid – neu rhowch restr			
Disgrifiwch y clefyd neu'r cyflwr, neu'r diagnosis os yw milfeddyg wedi archwilio'r anifail/anifeiliaid			
Cofnodwch yr holl feddyginiaethau milfeddygol a thriniaethau eraill sydd ag unrhyw gyfnod cadw o'r gadwyn fwyd yn gysylltiedig â hwy, a roddwyd i'r anifeiliaid o fewn y 60 diwrnod diwethaf			
Enw'r feddyginiaeth neu'r cynnyrch			
Dyddiad rhoi'r feddyginiaeth neu'r cynnyrch			
Cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd			

Manylion y cyfyngiadau symud sydd ar y daliad o ganlyniad i resymau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid neu resymau eraill

Manylion unrhyw samplau a gymerwyd oddi wrth yr anifeiliaid ar y daliad neu unrhyw samplau eraill sydd wedi dangos bod yr anifeiliaid wedi bod yn agored i unrhyw glefydau neu gyflyrau a allai effeithio ar ddiogelwch cig, neu unrhyw sylweddau a allai arwain at weddillion yn y cig.

Llofnod y ceidwad	
Printio'r enw	
Dyddiad	